# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

***[**[F1]*Gwaredu ar safle tirlenwi neu drwy losgi***]***

## 9 Rheoliadau sy'n gwahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o ollwng mathau penodedig o wastraff ar safle tirlenwi yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'i wahardd neu ei reoleiddio.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill)–

(a) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 ac sy'n ymwneud â dull gweithredu safle tirlenwi;

(b) darparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan y rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(d) darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

(3) Yn is-adran (1), mae i "safle tirlenwi" yr ystyr a roddir i "landfill" yn Erthygl 2(g) o Gyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC dyddiedig 26 Ebrill 1999 am dirlenwi gwastraff **[**[F1], fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan **[**[F2]Gyfarwyddeb (EU) 2018/850**]]****[**[F3], a'i darllen fel pe bai—

(a) yn Erthygl 2—

(i) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (a)—

"(a) 'waste' has the meaning given by Article 3(1) of the Waste Framework Directive, as read with Articles 5 and 6 of that Directive;";

(ii) y canlynol wedi ei roi yn lle pwynt (c)—

"(c) 'hazardous waste' has the meaning given in Article 3(2) of the Waste Framework Directive.";

(b) yn Erthygl 3(2), "Without prejudice to existing Community legislation," wedi ei hepgor.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 9(3) wedi eu mewnosod (22.3.2019) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(a), **2(2)**

**F2** Geiriau yn a. 9(3) wedi eu hamnewid (19.11.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2020 (O.S. 2020/1179), rhlau. 1(2), **2(2)**

**F3** A. 9(3)(a)(b) ac geiriau wedi eu mewnosod (31.12.2020) gan Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/414), rhlau. 1(2)(b), **6(2)**; (as wedi eu hamnewid gan O.S. 2020/1339, rhlau. 1(3), **2(2)(a)**); 2020 c. 1, **Atod. 5 para. 1(1)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 9 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Adran 9.